***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2002 No. 3277

# Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Newidiadau Etholiadol) 2002

### Enwi, cychwyn a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Newidiadau Etholiadol) 2002.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym:

(a) at ddibenion achosion, sy'n rhagarweiniol i unrhyw etholiad neu'n ymwneud ag unrhyw etholiad sydd i'w gynnal ar 6 Mai 2004, ar 9 Hydref 2003, a

(b) at bob diben arall, ar 6 Mai 2004.

(3) Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "adran etholiadol" ("*electoral division*") yw un o adrannau etholiadol Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg a sefydlwyd gan Orchymyn Trefniadau Etholiadol Bro Morgannwg 1994(**1**);

ystyr "y Ddeddf ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1972;

ystyr "map" ("*map*") yw'r map a farciwyd "map Gorchymyn Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg (Newidadau Etholiadol) 2002" ac a adneuwyd yn unol â Rheoliad 5 o Reoliadau Newidadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976(**2**).

(**1**) Cafodd y Gorchymyn hwn ei wneud ar 19 Rhagfyr 1994 gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref.

(**2**) O.S. 1976/246, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol (Diwygio) 1978 (O.S. 1978/247).